

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Practis Deintyddol Birchgrove /  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd  
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 02 Hydref 2020

Dyddiad cyhoeddi: 04 Ionawr  
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@gov.wales](mailto:agic@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	9
4.	Beth nesaf? .....	13
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	15
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	16
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	17

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Bractis Deintyddol Birchgrove yn 100 Heol Caerffili, Birchgrove, Caerdydd, CF14 4AG, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 2 Hydref 2020.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn mewn ymateb i bryderon y rhoddwyd gwybod i AGIC amdanynt nad oedd y trefniadau a oedd ar waith yn y practis yn helpu i sicrhau bod staff a chleifion yn cael eu diogelu rhag y risg o haint yn ystod pandemig diweddar COVID-19. O ganlyniad i natur y pryderon hyn, roedd AGIC yn teimlo bod angen cynnal arolygiad dirybudd er mwyn gweld a oedd yr honiadau hyn yn wir.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol. Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod rhai trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddiogelu staff a chleifion rhag y risg o haint yn ystod pandemig COVID-19.

Roedd amgylchedd y practis wedi'i addasu er mwyn sicrhau y gallai staff a chleifion ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol diogel.

Roedd polisïau wedi'u diwygio i amlinellu'r broses y dylai staff ei dilyn pe byddent yn dangos symptomau COVID-19.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig ar gynnal triniaethau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP) yn ddiogel yn cael eu dilyn yn llawn ac, felly, ni chawsom sicrwydd bod staff a chleifion yn cael eu diogelu rhag y risg o ledaeniad COVID-19 yn ystod triniaethau o'r fath.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd marciau wedi'u gosod ar y llawr a phosteri wedi'u harddangos ar y waliau er mwyn atgoffa pobl i gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr
- Roedd cadeiriau wedi'u symud allan o'r ystafell aros er mwyn sicrhau pellter digonol rhwng cleifion
- Dywedwyd wrth gleifion beth y gallent ei ddisgwyl yn ystod eu hapwyntiad yng ngoleuni COVID-19.
- Gofynnwyd i gleifion a oedd ganddynt symptomau COVID-19 cyn caniatáu iddynt ddod i'r practis ar gyfer eu hapwyntiad
- Roedd Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gael i staff y practis.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried a dilyn cyngor a chanllawiau proffesiynol ac arbenigol a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r triniaethau a roddir yn y practis a diogelwch cleifion.

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017:

- Rheoliad 15(5), 13(6) a 13(8) ynghylch ansawdd triniaethau a gwasanaethau eraill a ddarperir – nid oedd y trefniadau a oedd ar waith yn y practis i gynnal triniaethau AGP yn cydymffurfio'n llawn â'r ddogfen ganllaw <sup>1</sup>ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod COVID-19.

O ganlyniad i natur ein pryderon a pha mor ddifrifol oeddent, ymdriniwyd â'r materion hyn gan ddefnyddio ein proses diffyg cydymffurfio a gorfodi. O ganlyniad i hyn, gwnaethom ysgrifennu at y practis yn syth ar ôl yr arolygiad yn nodi na ddylai'r practis gynnal triniaethau AGP tan ein bod wedi rhoi hysbysiad yn cadarnhau ein bod yn fodlon na fyddai unigolion yn wynebu risg o niwed.

Wedi hynny, cafodd AGIC sicrwydd digonol ynghylch y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol, a chodwyd y gwaharddiad dros dro ar gynnal triniaethau AGP yn weithredol o 15 Hydref 2020.

Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym a'r camau a gymerwyd wedi'u nodi yn Atodiad A ac Atodiad B.

---

<sup>1</sup> [Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer Rheoli Cleifion Deintyddol nad oes ganddynt COVID-19 yng Nghymru \(Saesneg yn Unig\)](#)

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Birchgrove Dental Practice yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.



## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried sut roedd y practis deintyddol wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a ph'un a oedd ganddo'r trefniadau angenrheidiol ar waith i ddiogelu cleifion a staff yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd er mwyn helpu cleifion a staff i gynnal hylendid dwylo da a chadw pellter cymdeithasol. Mae arwydd ar y drws ffrynt i ddweud mai dim ond cleifion sydd wedi trefnu apwyntiad ymlaen llaw a all fynd i mewn i'r practis. Mae'n rhaid i gleifion giwio wrth y fynedfa a defnyddio'r gel hylendid dwylo cyn cael eu galw ymlaen gan y derbynydd. Mae sgrin bersbecs wedi cael ei gosod o amgylch desg y dderbynfa a gwelsom staff a chleifion yn gwisgo masgiau wrth gerdded o amgylch y practis.

Gwelsom fod marciau wedi'u gosod ar y llawr a phosteri wedi'u harddangos ar y waliau er mwyn atgoffa pobl i gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, a bod cadeiriau wedi'u symud allan o'r ystafell aros er mwyn sicrhau y gallai cleifion gadw pellter cymdeithasol.

Anfonir e-bost at gleifion cyn eu hapwyntiad gyda gwybodaeth am beth i'w wneud a beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn ymweld â'r practis i gael triniaeth, e.e. bod yn rhaid i gleifion fynychu apwyntiadau ar eu pen eu hunain. Mae'r practis yn gofyn cwestiynau sgrinio COVID-19 i gleifion sawl gwaith cyn iddynt fynychu er mwyn sicrhau nad oes ganddynt unrhyw symptomau; cysylltir â chleifion dridiau cyn eu hapwyntiad a diwrnod cyn eu hapwyntiad, a bydd y deintydd yn gofyn yr un cwestiynau iddynt eto cyn dechrau unrhyw driniaeth.

Gwelsom fod y polisïau llesiant ac absenoldeb staff wedi'u diweddarau i gynnwys y trefniadau sydd ar waith yn y practis er mwyn helpu i gadw staff yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y broses i'w dilyn pe bai unrhyw aelod o'r staff yn datblygu symptomau COVID-19. Gwelsom dystiolaeth o gofnod dyddiol a oedd yn cael ei gynnal er mwyn monitro symptomau a thymereddau staff a helpu i gadarnhau eu bod yn ddiogel i ddod i'r gwaith. Dywedwyd wrthym nad oedd staff wedi cwblhau asesiad risg COVID-19 personol er mwyn helpu i

ddiogelu a rheoli'r staff hynny y nodwyd eu bod yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol pe byddent yn dal COVID-19; cawsom dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad i ddangos bod asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff.

Dywedwyd wrthym am ddigwyddiad lle roedd un aelod o'r staff wedi datblygu symptomau ac wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19 wedi hynny. Amlinellodd y rheolwr cofrestredig<sup>2</sup> a'r unigolyn cyfrifol<sup>3</sup> y broses a ddilynwyd yn unol â'r polisi, a gwnaethant gadarnhau bod yr aelod o staff dan sylw wedi hunanynysu am y cyfnod a argymhellir gan GIG Cymru ar ôl cael canlyniad y prawf. Hefyd, gwelsom dystiolaeth o e-bost a anfonwyd gan y rheolwr cofrestredig at y staff yn dweud wrthynt am yr achos positif ac yn eu hatgoffa am y canllawiau diweddaraf mewn perthynas â diogelu eu hunain yn ystod y pandemig.

### Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau a oedd ar waith i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a gwelsom eu bod yn unol â'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd masgiau, ffedogau a gynau ar gael yn y storfa a gwelsom dystysgrifau profion addasrwydd i ddangos bod cyfarpar diogelu anadlol yn addas i bob aelod o'r staff ei wisgo yn ystod triniaethau AGP.

Dywedwyd wrthym fod staff wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol, ond ni allai'r practis ddarparu tystiolaeth i gadarnhau hyn. Rhoddwyd dogfennaeth i ni yn fuan wedi'r arolygiad wedi'i llofnodi gan staff i gadarnhau eu bod wedi cael yr hyfforddiant dan sylw, eu bod yn deall eu cyfrifoldebau, a'u bod yn teimlo'n gymwys i roi'r hyfforddiant ar waith.

Gwelsom fod y practis wedi cyfrifo cyfnod priodol o amser i ganiatáu i unrhyw ysgeintiadau/defnyddiau setlo a chlirio yn dilyn triniaethau AGP. Fodd bynnag, yn ystod ein taith o amgylch y practis, a thrwy drafod â'r unigolyn cyfrifol, gwelsom

---

<sup>2</sup> Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

<sup>3</sup> Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

nad oedd gan y practis broses addas ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn ystod triniaethau AGP yn llwyr. Gwelsom y canlynol:

- Bod y deintyddfeydd yn cynnwys eitemau nad ydynt yn hanfodol y byddai'n anodd eu dihalogi'n hawdd ac yn ddiogel yn dilyn triniaethau AGP
- Roedd y gweithdrefnau safonol a gynhyrchwyd gan yr unigolyn cyfrifol i nodi'r broses ar gyfer cynnal triniaethau yn ddiogel yn y practis yn ystod pandemig COVID-19 wedi dyddio ac, felly, nid oeddent yn adlewyrchu cynnwys dogfen ganllaw ddiweddaraf Llywodraeth Cymru
- Nid oedd cyfarpar na ellid ei symud yn y deintyddfeydd (e.e. sgriniau teledu ar y waliau) yn cael ei orchuddio'n briodol yn ystod triniaethau AGP
- Nid oedd y glanedydd a ddefnyddiwyd yn y deintyddfeydd ar ôl triniaethau AGP yn ddigon cryf i'w dihalogi'n ddigonol
- Nid oedd y nyrs ddeintyddol ychwanegol yn y practis yn cael ei defnyddio i helpu staff i ddiosg cyfarpar diogelu personol yn dilyn triniaethau AGP fel y bo angen yn unol â'r canllawiau diweddaraf
- Roedd staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol a ddefnyddiwyd yn ystod triniaethau AGP wrth lanhau'r ddeintyddfa yn dilyn triniaethau yn hytrach na'i ddiosg a gwisgo cyfarpar diogelu personol newydd cyn dechrau'r gwaith glanhau.

Roedd y materion hyn yn golygu na allem fod yn gwbl sicr bod cleifion a staff yn cael eu diogelu rhag y risg o ddal COVID-19 yn ystod triniaethau AGP yn y practis. Ceir rhagor o fanylion am ein pryderon a'r camau a gymerodd y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol yn Atodiad A ac Atodiad B.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Yn ystod cyfnod cynnar pandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyngor i dimau deintyddol yng Nghymru yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd i ddiogelu staff a chleifion rhag y risg o haint a helpu i leihau lledaeniad COVID-19 mewn cymunedau. Roedd y cyngor hwn yn datgan cyfnod 'Rhybudd Coch Deintyddol COVID-19', ac yn ystod y cyfnod hwn dylai apwyntiadau deintyddol arferol a drefnwyd ddod i ben, ni ddylid cynnal triniaethau AGP, a dylid oedi unrhyw driniaethau deintyddol y gellid eu hoedi.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y system rheoli cleifion i weld a oedd cleifion wedi mynychu'r practis deintyddol yn ystod cyfnod Rhybudd Coch Deintyddol COVID-19. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis deintyddol wedi cynnal triniaethau nad oeddent wedi'u caniatáu yn ystod y cyfnod hwn, megis adfer coronau, llenwadau parhaol a thriniaethau sianel y gwreiddyn. Eglurodd yr unigolyn cyfrifol y cefndir a'r amgylchiadau lliniarol a arweiniodd at gynnal y triniaethau hyn, ond ni allem fod yn sicr o hyd bod iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion dan sylw wedi'u diogelu'n llwyr yn ystod y triniaethau hyn.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn dilyn unrhyw gyngor a gyhoeddir i dimau deintyddol yng Nghymru gan naill ai Lywodraeth Cymru neu gyrff rheoliadol proffesiynol a gaiff eu cydnabod a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
<p>Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth i ddangos nad oedd y trefniadau a oedd ar waith i gynnal triniaethau AGP yn y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r ddogfen ganllaw ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod pandemig COVID-19.</p>	<p>Mae achos rhesymol dros gredu nad yw unigolion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag y risg o COVID-19 wrth gael rhai triniaethau yn y practis.</p>	<p>Yn dilyn yr arolygiad, penderfynodd AGIC osod amod ar gofrestrriad Practis Deintyddol Birchgrove i atal pob triniaeth AGP ar unwaith er mwyn galluogi'r practis i gymryd y camau gofynnol i leihau neu ddileu'r risg o niwed.</p>	<p>Ar 14 Hydref 2020 cynhaliwyd cyfarfod rhwng AGIC a'r gwasanaeth er mwyn trafod y camau unioni a gymerwyd ers yr arolygiad. Rhoddwyd sicrwydd i AGIC bod y gwelliannau a wnaed yn golygu y gellid bellach gynnal triniaethau AGP yn ddiogel. Tynnodd AGIC yr amodau a osodwyd ar gofrestrriad Practis Deintyddol Birchgrove yn weithredol o 15 Hydref 2020.</p>



## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Birchgrove

### Dyddiad arolygu: 02 Hydref 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn y practis yn unol â'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Rheoli Cleifion Deintyddol nad oes ganddynt COVID-19 yng Nghymru a gynhyrchwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol. Rhaid i hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Dogfen gweithdrefnau gweithredu safonol ddiwygiedig er mwyn i'r staff ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau</li><li>Tynnu pob eitem nad yw'n hanfodol y gellir ei symud a gorchuddio pob eitem na ellir ei symud o'r ddeintyddfa lle y caiff triniaethau AGP eu cynnal</li></ul>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p> <p>Rheoliadau 13(5), 13(6), 13(8)</p>	<p>Rydym wedi diweddarau ein gweithdrefn gweithredu safonol ddiweddaraf ers i'n gweithdrefn gyntaf gael ei chreu ym mis Mehefin 2020 (yn seiliedig ar weithdrefn Pandora a gweithdrefn Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Lloegr, sef dogfen a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth ac asesiad risg).</p> <p>Mae'r weithdrefn ddiweddaraf yn seiliedig ar ail weithdrefn ddiwygiedig Cymru, ac rydym wedi seilio ein fframwaith a'n hasesiad risg cyfan yn y practis ar y weithdrefn hon.</p> <p>Mae'r weithdrefn hon bellach wedi'i rhannu ag aelodau ein tîm, sydd wedi gallu deall y newidiadau a'u rhoi ar waith yn ein practis ar unwaith.</p>	<p>Craig Lewis (Prif Ddeintydd ac arweinydd clinigol) a Beth Lewis (Rheolwr y Practis)</p>	<p>Cwblhawyd pob cam erbyn 5 Hydref 2020.</p>

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dihalogi'r ddeintyddfa yn dilyn triniaethau AGP gan ddefnyddio glanedydd sy'n ddigon cryf ac nid potel chwistrellu</li> <li>• Dilyn y gweithdrefnau Cyfarpar Diogelu Personol cywir wrth ddihalogi'r ddeintyddfa yn dilyn triniaethau AGP</li> <li>• Penodi nyrs ddeintyddol gyfeillio er mwyn helpu'r tîm deintyddol yn ystod triniaethau AGP</li> <li>• Cadarnhau bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol a dihalogi'r deintyddfeydd ar ôl triniaethau AGP a thriniaethau nad dynt yn AGP.</li> <li>• Cynnal asesiadau risg COVID-19 ar staff er mwyn helpu i ddiogelu eu hiechyd a'u llesiant</li> </ul>		<p>Rydym wedi rhoi proses creu parthau ar waith ar gyfer sesiynau AGP yn y practis er mwyn cynnal y sesiynau hyn a'u dal yn ôl yn y dyddiadur. Rydym yn bwriadu dechrau hyn drwy gynnal triniaethau AGP yn ystod sesiynau diwedd y bore yn unig ac eto yn ystod sesiynau'r prynhawn.</p> <p>Dim ond ar ddiwrnodau pan fydd gennym nyrs sbâr/rhedeg y bydd hyn yn digwydd. Rydym hefyd wedi ymestyn ein hamseroedd AGP er mwyn lleihau blinder ymhlith aelodau'r tîm a theimlwn y bydd cynnal y triniaethau hyn cyn yr egwyl ginio neu ar ddiwedd y dydd yn helpu yn hyn o beth.</p> <p>Rydym hefyd wedi sicrhau bod y ddeintyddfa ar gael ar gyfer sesiwn/diwrnod ychwanegol er mwyn helpu i drin ein cleifion os bydd deintydd yn teimlo bod angen i glaf sydd mewn poen gael triniaeth frys ar ddydd Sadwrn.</p> <p>Rydym hefyd wedi gosod arwyddion ar ddrysau'r ddeintyddfeydd i ddangos pan fydd triniaeth AGP yn mynd rhagddi, ynghyd â stopwatsh/amserydd fel y gellir nodi'r amser pan fydd yn ddiogel mynd i mewn i'r ystafell ar y drws.</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae pob deintyddfa wedi'i haddasu drwy dynnu eitemau diangen syml megis fasys blodau, addurniadau a seinyddion ar gyfer cyfrifiadur.</p> <p>Rydym hefyd wedi lapio pob monitor a sgrin gyfrifiadur/teledu mewn seloffen a gorchudd sgrin fel y gellir ei sychu'n hawdd gan ddefnyddio glanedydd sy'n cynnwys clorin ar ôl cynnal triniaeth AGP. Rydym hefyd wedi prynu bagiau diogelu i'w gosod dros ein meicroffonau deintyddol yn y ddwy ddeintyddfa.</p> <p>Mae hyn wedi gwneud pob deintyddfa glinigol yn amgylchedd llawer mwy gwag a chlr. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod sgriniau hanfodol sydd eu hangen i edrych ar radiograffau a nodiadau clinigol yn ddiogel i'w dihalogi, heb fod unrhyw risg i aelodau o'r staff na risg y caiff y cyfarpar ei ddifrodi.</p> <p>Rydym wedi buddsoddi mewn cyfleusterau storio ychwanegol yn ein storfa er mwyn dal eitemau y gellir eu hestyn cyn apwyntiad AGP.</p> <p>Bydd hyn yn gwneud y broses o baratoi ar gyfer apwyntiad AGP neu apwyntiad nad yw'n AGP yn llawer symlach ac yn ei gwneud yn haws sychu</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>arwynebau yr oedd yn anodd eu cyrraedd yn flaenorol.</p> <p>Yn lle defnyddio weips a chwistrell alcohol pur yn unol â phrotocol HTM 01-05 protocol, rydym bellach yn defnyddio cynhyrchion sy'n cynnwys clorin/cannydd (hypoclorus) ar ffurf tabledi clorin (Actichlor) Salvesan a weips COVID Clinell, sef cynhyrchion weips/cadachau yn hytrach na photel chwistrellu. Rydym wedi diweddarau ein gweithdrefn gweithredu safonol yn unol â hyn ac wedi prynu eitemau cyn ymgymryd ag unrhyw ymarfer clinigol pellach.</p> <p>Rydym wedi diweddarau hyfforddiant ein tîm er mwyn sicrhau bod yr aelod(au) o'r tîm nyrsio sy'n dihalogi'r ddeintyddfa ar ôl ei defnyddio i gynnal triniaeth AGP yn diosg ei gyfarpar/eu cyfarpar diogelu personol ar ôl i'r amser tynnu ddod i ben (yn unol â'n gweithdrefn gweithredu safonol) ac yn gwisgo cyfarpar diogelu personol newydd a fyddai'n cael ei wisgo ar gyfer triniaeth nad yw'n AGP, cyn dihalogi'r ddeintyddfa y bu/buont yn gweithio ynddi. Mae ein tîm hefyd wedi gwella ar y lefel hon o fasg gwrth-hylif, menig, ffedog, sbectolau/feisor drwy wisgo gorchuddion breichiau</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>untro os byddant yn dymuno wrth bwyso dros unrhyw eitemau mawr yn y ddeintyddfa (megis arwynebau caled/cadair y ddeintyddfa) i atal cynhyrchion cannydd rhag cyffwrdd â'u croen.</p> <p>Mae gennym nyrs sbâr/gyfeillio sy'n gweithio yn y practis bedwar diwrnod yr wythnos, ac rydym bellach wedi diwygio ein gweithdrefn gweithredu safonol i sicrhau y gellir cysylltu â'r unigolyn hwn yn hawdd pan fydd unrhyw driniaeth AGP yn mynd rhagddi. Rydym hefyd wedi ail-lenwi'r storfa ag eitemau a gedwir yn y ddeintyddfa fel arfer pe bai angen.</p> <p>Gellir cysylltu â'r nyrs gyfeillio hon yn hawdd drwy neges uniongyrchol drwy ein system gyfrifiadurol (bysellfwrdd wedi'i gorchuddio ac y gellir ei sychu) neu drwy ein system ffôn fewnol sy'n gweithredu fel <i>walkie-talkie</i>. Mae'r ffonau bach hyn yn ddi-wifr a gellir eu cario o amgylch y practis. Gellir hefyd eu lapio a'u selio mewn deintyddfa pan fydd triniaeth AGP yn mynd rhagddi a'u defnyddio drwy'r swyddogaeth deialu cyflym.</p> <p>Rydym hefyd wedi ymestyn ein hwythnos waith ac rydym yn defnyddio un o ddiwrnodau'r penwythnos er mwyn helpu i sicrhau bod gennym nyrs gyfeillio</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ar fwy o ddiwrnodau'r wythnos waith o ddydd Llun i ddydd Gwener. Byddwn hefyd yn cylchdroi rôl y nyrs gyfeillio er mwyn helpu i atal blinder ymhlith ein tîm.</p> <p>Mae gennym bellach gadarnhad ar ffurf dogfennau wedi'u llofnodi gan bob aelod o'r staff i ddangos eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff eisoes wedi cael hyfforddiant ac yn hyderus wrth lanhau/dihalogi'r deintyddfeydd ar ôl triniaethau AGP a thriniaethau nad ydynt yn AGP. Rydym bellach wedi llofnodi dogfennaeth ategol i gadarnhau hyn.</p> <p>Mae gennym dîm o staff profiadol a gwybodus iawn sy'n ymgymryd yn hyderus â rolau clinigol yn y ddeintyddfa lle mae gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol yn unol â'r dechneg aseptic yn hollbwysig.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael asesiad risg COVID-19 er mwyn sicrhau ei fod yn iach i gyflawni ei rôl bresennol. Mae pob aelod o'r tîm yn hapus</p>		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ac yn hyderus i ddarparu gofal deintyddol ardderchog.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael copi o'r Polisi Llesiant Staff. Maent wedi cael gwybodaeth am ble i fynd i gael cymorth mewn perthynas ag iechyd a llesiant os bydd ei angen arnynt mewn perthynas â phandemig presennol COVID-19. Mae hyn wedi'i drafod ar lafar â phob aelod o'r tîm, ac wedi'i ategu gan ddogfennaeth ysgrifenedig.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Craig Lewis**

**Teitl swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad: 06 Hydref 2020**

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Birchgrove

### Dyddiad arolygu: 02 Hydref 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn dilyn unrhyw gyngor a gyhoeddir i dimau deintyddol yng Nghymru gan naill ai Lywodraeth Cymru neu gyrff rheoliadol proffesiynol a gaiff eu cydnabod a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 13(8)	Yn dilyn diwygio ein gweithdrefn gweithredu safonol a oedd yn seiliedig ar weithdrefn Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Lloegr, rydym bellach wedi diwygio'r weithdrefn hon yn seiliedig ar weithdrefn gweithredu safonol ddiweddaraf Prif Swyddog Deintyddol Cymru. Y weithdrefn hon a ddilynir gan Lywodraeth Cymru wrth geisio cyngor, a hon a ddefnyddir fel pwynt cyfeirio o hyn ymlaen wrth lunio diweddariadau/rheoliadau pellach yn y dyfodol, yn hytrach na gweithdrefn gweithredu safonol Coleg Brenhinol y	Craig Lewis	Ar unwaith 2/10/2020



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Llawfeddygon neu gyngor gan Brif Weinidog y DU.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Craig Lewis**

**Teitl swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad: 10 Tachwedd 2020**